**Adroddiad i:** Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Ebrill 2013

**Swyddog Arweiniol:** Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**Teitl:** Polisi Chwythu'r Chwiban

---

## 1 Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

## 2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Gofyn am farn a sylwadau'r Pwyllgor ar adolygiad drafft i Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod y Pwyllgor yn cyflwyno sylwadau ar y polisi diwygiedig drafft ac yn ei gyfeirio at y Cyngor i'w gymeradwyo.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Polisi Chwythu'r Chwiban presennol y Cyngor ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

4.2 Mae adolygiad o'r Polisi wedi arwain at baratoi polisi drafft diwygiedig sydd ynghlwm fel Atodiad 2 i'r Adroddiad.

4.3 Mae Nodyn Briffio i Reolwyr gyda'r Polisi diwygiedig sydd ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

4.4 Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i gynnal ei fusnes mewn modd agored, tryloyw a moesegol.

4.5 Y bobl sy'n gweithio i, neu gyda'r, Cyngor yn aml fydd y rhai cyntaf i sylweddoli fod rhywbeth o'i le o fewn y Cyngor.

4.6 Nod y Polisi Chwythu'r Chwiban yw annog y rhai sy'n gweithio i neu gyda'r Cyngor i deimlo'n hyderus y gallen nhw godi pryderon dilys ynghylch ymddygiad anghyffreithlon, anfoesegol neu anghywir ac y byddant yn cael eu gwarchod rhag aflonyddwch, erledigaeth neu ddial ar ôl mynegi eu pryderon.

4.7 Mae’r mathau o bryderon y bwriedir eu cynnwys yn y Polisi i’w gweld ym mharagraffau 2.2 a 2.3 o Atodiad 2.

4.8 O dan Côd Ymddygiad Swyddogion, mae’n gyfrifoldeb ar staff i adrodd yn ôl ar ymddygiad anghyfreithlon, anghywir neu’n anfoesegol.

4.9 Mae Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr, gan gynnwys contractwyr a staff asiantaeth, sy’n mynegi pryderon dilys ac yn gwneud datgeliadau’n ddidwyll ynghylch camymddygiad. Mae’n anghyfreithlon i gyflogwr ddiswyddo unrhyw un neu adael iddynt gael eu cosbi neu’u herlyn ar sail eu bod wedi gwneud datgeliad cyfreithlon priodol yn unol â'r Ddeddf.

4.10 Mae’r Polisi’n dangos sut y gellir mynegi pryderon ac yn ceisio ei gwneud yn glir, er y gobeithir y bydd diwylliant y sefydliad yn gwneud i bobl teimlo’n gyfforddus ynghylch codi materion yn fewnol, y peth pwysig yw bod y pryder yn cael ei fynegi hyd yn oed pe byddai hynny’n golygu mynd â’r mater at gorff allanol.

4.11 Gallai unigolion sydd â phryder fod yn ansicr wrth bwy y dylid mynegi pryder. Mae’r Polisi’n ceisio dangos y cysylltiadau mewnol ac allanol y byddai’n briodol mynegi pryder ynghylch y Cyngor.

4.12 Mae’r Polisi’n dangos beth y gallai unigolyn sy’n mynegi pryder ei ddisgwyl gan y Cyngor o ran ymateb ac mae'n rhoi arweiniad ynghylch sut y bydd cyfrinachedd yn cael ei drin.

4.13 Gobeithir mai dim ond ychydig o faterion fydd yn cael eu codi o dan y Polisi. Ni fydd yn Bolisi, felly, a fydd yn cael sylw rheolaidd gan reolwyr. Mae nodyn briffio wedi’i ddatblygu i roi arweiniad i reolwyr ynghylch sut i ymdrin â phryder sy’n cael ei fynegi. Mae hynny i’w weld yn Atodiad 3.

4.14 Unwaith y bydd wedi’i gymeradwyo, bydd angen sicrhau y codir ymwybyddiaeth ymysg staff ac eraill sy'n gweithio gyda'r Cyngor. Bydd angen ymarferion codi ymwybyddiaeth o dro i dro wedyn i sicrhau fod y Polisi’n dal yn wybyddus i’r rhai a allai ddymuno ei ddefnyddio ac i reolwyr a allai fod angen ei weithredu.

## 5 Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd Polisi Chwythu’r Chwiban yn galluogi’r rhai sy’n gweithio i neu gyda’r Cyngor i fynegi pryderon ynghylch camweddau a fydd o gymorth i’r Cyngor gyflawni’i flaenoriaethau corfforaethol.

## 6 Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does yna ddim costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7 Pa ymgynghori a wnaed?

7.1 Ymgynghorwyd â’r Uwch Dî m Arweinyddiaeth a gwnaed newidiadau i'r drafft er mwyn talu sylw i'r sylwadau a wnaed ganddo.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Mae Polisi Chwythu'r Chwiban dibynadwy'n rhan bwysig o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Y perygl o beidio â chael Polisi Chwythu'r Chwiban yw na fyddai unrhyw drefniant diogel i'r rhai sy'n gweithio i neu gyda'r Cyngor i fynegi pryderon cyfreithlon ynghylch camweddau.

## 10 Yr Hawl i Benderfynu?

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972